

RAS GOFFA BOBBY SANDS

Cyflwyniad

Mae Eddie Ladd yn cael ysbrydoliaeth o bob man ac yn gallu datblygu syniadau er mwyn creu sioe neu gyflwyniad.

Roedd Bobby Sands yn arwr i rai pobl yng Ngogledd Iwerddon ond mae Eddie Ladd wedi mynd ar ôl themâu ehangach megis rhyddid, dioddefaint a marwolaeth. Mae'r themâu yma yn effeithio pob unigolyn a chymdeithas.

Y tro yma mae gan Eddie Ladd set ac mae'r cyflwyniad i'w berfformio mewn theatr, sydd yn anarferol iddi hi.

Mae'r peiriant rhedeg yn creu awyrgylch deinamig i'r perfformiad ac fel y dywed Eddie mae'n drosiad ynddo'i hun e.e. bywyd yn mynd yn ei flaen a chylch bywyd .

Ychydig iawn o ddeialog sydd yn y darn gyda'r cyfathrebu yn digwydd gyda'r corff yn bennaf.

Pwy oedd Bobby Sands?

Ganwyd Bobby Sands ar 9fed o Fawrth 1954. Yn 1972 ymunodd a'r IRA, ac ym mis Hydref y flwyddyn honno cafodd ei arestio am fod a 4 dryll yn ei feddiant. Fe'i carcharwyd ym mis Ebrill 1973 am bum mlynedd.

Wedi ei rhyddhau ail ymunodd â gweithgareddau'r IRA. Cafodd ei gyhuddo o fod â rhan yn y bomio a ddiodeffodd Cwmni Celfi Balmoral, ond nid oedd digon o dystiolaeth yn ei erbyn. Cafodd ei arestio yn ddiweddarach yn dilyn ei ran yn y frwydr saethu ac ym mis Medi 1977 fe'i dedfrydwyd i 14 mlynedd o garchar.

Yn 1981 dechreuodd ar streic newyn yn y carchar a thair wythnos yn ddiweddarach bu farw yn 27 oed.

Daeth yn ffigwr rhyngwladol gan ysbrydoli rhai oedd am ryddid oddi wrth reolaeth Prydain ac oedd yn barod i ymladd am eu hawliau.



RAS GOFFA BOBBY SANDS

Tasg 1

Meddyliwch am ddrama yr ydych yn ei hastudio.

Ceisiwch feddwl am set fyddai yn drosiad i'ch drama. e.e. set ar gyfer 'Comedy of errors' yn llawn doliau sydd yn edrych yr un peth; set ar gyfer 'Blodeuwedd' sy'n gynnwys llawer o flodau enfawr o dan gwmwl bom niwclear.

Chwiliwch am ddelweddau fyddai'n gweddu i'ch set.

Cyflwynwch eich syniadau i'r dosbarth.

Cofiwch nad oes atebion cywir ac anghywir a gall eich syniadau fod mor eithafol ag y dymunwch.

Tasg 2

Un o elfennau pwysig y sioe yma yw'r **sain**.

Roedd Eddie Ladd yn sôn ei bod wedi creu trac sain arbennig yn cynnwys synau carchar ayb ond roedd hi hefyd yn gallu creu ei cherddoriaeth ei hun yn fyw.

Drwy symud roedd hi'n creu synau penodol ac felly yn gallu rheoli hyn ond hefyd yn llwyddo i gael hyn i adlewyrchu ei theimladau wrth berfformio.

Dewiswch adran fer o ddrama, dim mwy na rhyw bump neu chwe tudalen.

Darllenwch yr adran a phenderfynwch beth yw cynnwys yr adran - y themâu, cymeriadau a'r digwyddiadau.

Eich tasg yw creu trac sain sy'n adlewyrchu'r digwyddiadau yn yr adran.

Chwiliwch am offerynnau neu rywbeth sydd yn creu sain sydd yn gweddu i'ch darn.

Defnyddiwch eich llais sy'n offeryn sydd yn gallu cael ei ddefnyddio mewn llawer o ffyrdd creadigol.

Recordiwch y trac ar declyn symudol.

Y DEFNYDD O SAIN MEWN PERFFORMIADAU THEATRIG

Mae'r defnydd o sain neu gerddoriaeth i ennyn emosiwn a chreu awyrgylch yn mynd nôl i gyfnod cyn hanesyddol. Bryd hynny defnyddid synau mewn arferion crefyddol .

Yn y canoloesoedd perfformiwyd dramau yn null theatr a elwid yn *Commedia dell'arte*, a ddefnyddiai cerddoriaeth ac effeithiau sain i wella perfformiadau. Dilynodd y defnydd o gerddoriaeth a sain yn y cyfnod Elisabethaidd lle roedd cerddoriaeth ac effeithiau sain yn digwydd oddi ar y llwyfan gan ddefnyddio dyfeisiau megis clychau,chwibanau a chyrn.

Mae'n bosibl mai'r defnydd cyntaf o sain mewn theatr wedi'i recordio oedd ffonograff yn chwarae swm babi'n crio mewn theatr yn Llundain yn 1890.

Chwiliwch am fwy o hanes y defnydd o synau mewn cyflwyniadau theatrig.

Tasg 3

Defnyddiwch y trac sain yr ydych wedi'i greu fel cefndir i berfformiad o'r olygfa heb eiriau.

Ceisiwch ddefnyddio symudiadau a phrocsemics i greu lluniau llwyfan sydd yn cyfleu ystyr yr olygfa.

Terminoleg:

Delweddau

trosiadau neu gymariaethau trawiadol sy'n awgrymu rhywbeth arall i'r sawl sy'n gwyllo

Comedy of Errors

un o ddramâu cynnar Shakespeare ac un o'i rhai byrraf. Comedi ydyw'r ddrama a'r hiwmor yn codi yn bennaf o gam adnabod cymeriadau.

Blodeuwedd

ystyrir y ddrama Blodeuwedd gan Saunders Lewis yn un o gampweithiau theatr yr ugeinfed ganrif. Mae'r ddrama yn seiliedig ar y bedwaredd gainc o'r Mabinogi- y stori am y ferch a wnaed o flodau gan y dewin Gwydion a'i rhoi yn wraig i Llew.

Commedia dell'arte

cyflwyniad theatrig llawn hiwmor a berfformiwyd gan actorion proffesiynol a deithiai o gwmpas yr Eidal nôl yn yr unfed ganrif ar bymtheg . Roedd cerddoriaeth, dawns , deialog llawn hiwmor a bob math o driciau yn ychwanegu at yr effeithiau comedi.

Gwefannau defnyddiol wrth ymchwilio i'r defnydd o sain yn y theatr:

www.the-guardian.com/theatre-sound-design

www.britannica.com/art/sound-effect

Clip:

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Bobby%20Sands%20Cut%202.C.mov>

Cydnabyddiaeth:

Diolch i Ymddiriedolaeth Bobby Sands am yr hawl i ddefnyddio'r llun ohono.

© Bobby Sands Trust